# CAN ALARUS,

ER COFFADWRIAETH

# AM WYTH O DDYNION A FODDWYD,

## Gerllaw Aberaeron, yn Swydd Aberteifi,

Boreu Dydd Sadwrn, Medi 18ed, 1852.

## Gan EVAN GRIFFITHS (Ieuan Cadfan.)

*Ar y Don—"Diniweidrwydd."*

---

Enwau ac oed y personau a foddwyd:—David Jones, 50; Lewis Lewis, 20; John Evans, 16; Evan Evans, 12; Daniel ———; John ———; Mary Jones, 21; a Sarah Jones, 16.

---

1. BETH yw'r cwynfan a'r galaru,
   Beth yw'r ochain yma sydd,
A'r newyddion trist anhyfryd,
   Yrodd lawer iawn yn brudd?
Angeu creulon, gelyn chwerw,
   Sydd yn tramwy yn ein gwlad,
Aeth a hoff gyfeillion mwynion,
   A'u rhoddi'n isel iawn dan dra'd!

2. Galar sydd yn Aberaeron,
   Gan gyfeillion y rhai hyn,
Trwy'r Cei Newydd, a Llanddewi,
   Waith eu rhoddi yn y glyn;
Y deunawfed dydd o Medi,
   Deunaw cant pum deg a dau,
Y bu'r tro galarus hynod,
   Erchyll ddiwrnod i'w goffhau!

X205242560.

3. Gwel'd yr wyth yn myn'd i'r dyfnder,
Trwm yw'r galar am y tro,
Y dygwyddodd mor annedwydd,
Gwilied pawb drwy fryn a bro;
Dynion bywiog yn y boreu,
'N codi'n eitha' llon eu gwedd,
Cyn yr hwyr eu rhan ddaiarol
Alwai'n uchel am y bedd!

4. Boreu Sadwrn, 'nol yr hanes,
Dyma gyffes pawb o'r bron,
Heb un meddwl y buasent
Roi ffarwel i'r ddaiar hon;
Gadael tadau a mamau serchog,
Brodyr a chwiorydd mâd,
I gael myn'd i Aberaeron,
Heb un meddwl cwrdd â brâd.

5. 'Doedd neb yn meddwl wrth fyn'd allan,
A gadael eu perth'nasau 'nol,
Buasai iddynt gwrdd âg angeu
Cyn dychwelyd yn eu hol;
Ond, er galar i'r gym'dogaeth,
Ac i'w perthynasau llon,
Lawr i'r dyfnder, och! hwy aethant,
O! 'r fath alar oedd ger bron!

6. Golwg hardd oedd ar y dynion,
Yn Aberaeron oll yn nghyd,
Nid oedd neb i'w cael mwy serchog,
Trwy'r holl le, a'i chwilio i gyd;
Pan yn meddwl cael hyfrydwch,
A dyddanwch mwynlon mâd,
Lawr i'r Môr bu gorfod myned,
Gyda'u gilydd o'r un bâd!

7. Golwg trist yn Aberaeron
I'r cym'dogion yn y lle,
Oedd eu gwel'd yn codi'u breichiau
Uwch y tonau tua'r ne'!

Weithiau a'u penau uwch y tonau,
A'u gwynebau am y lan,
Oll yn gwaeddi am gael gweled
Hoff ymwared o ryw fan!

8. Och! i'r dynion gwrdd âg angeu
Mewn fath ffordd anhyfryd iawn;
Myn'd i'r Llong yn llon eu gwyneb,
Yn nhragwyddoldeb cyn prydnawn!
Da yw bod mewn cyflwr parod,
Er myn'd uwch y byd a'i boen,
I blith seintiau ac angelion,
I foli'r croeshoeliedig Oen.

9. Trwm yw pawb o'u hoff gyfeillion,
Yn Aberaeron ar eu hol;
Ond er cymaint yw'r galaru,
Ni ddychwelant byth yn ol!
*Daniel*, *Dafydd*, *John*, a *Lewis*,
*John*, ac *Evan*, sydd yn awr,
*Mary* hithau, *Sarah* hefyd,
Oll yn nhragwyddoldeb mawr!

10. *Dafydd*, gafodd waredigaeth,
Fyddo'n helaeth roddi clod
I'w Greawdwr a'i gwaredodd,
Ac a'i carodd cyn ei fod;
Pan ar gefn y tonau geirwon,
Angeu creulon ar bob llaw,
Llywydd mawr y môr a'i daliodd,
Fel na suddodd yn ei fraw!

11. Golwg dorcalonus ydoedd,
I'r cym'dogion fach a mawr,
Gwel'd yr wyth fu gynt mor llawen,
Wedi cael eu tori i lawr;
Gwel'd eu hardd-gyrff yn y dyfnder,
A'r enaid wedi 'hedeg draw,
At y Duw yr hwn a'i rhoddes,
I derfynau'r byd a ddaw.

12. Chwi berth'nasau tyner galon,
    Na alerwch yn rhy brudd;
Daeth eu tymmor hwy i'w derfyn,
    Plygwch chwithau 'nawr mewn ffydd:
Mwy ni chlywir am un trosedd,
    Ar y ddaiar a wnant hwy;
Ni chaiff tad na mam un gofid,
    I roddi byth i'w calon glwy.

13. Ie'nctyd siriol bro a bryniau,
    Gwiliwch chwithau bob yr un,
Ni ŵyr neb pa awr, pa fynyd,
    Bydd yn dyfod Mab y dyn;
Yr oe'nt hwythau yn y boreu,
    'N eithaf iach a llon eu gwawr;
Cyn yr hwyr, O dro anhyfryd.
    'R oeddynt wedi eu tori lawr!

14. Cyn bo imi 'nawr derfynu,
    'Rwyf yn galw pawb yn nghyd,
I geisio nabod Iesu'n Briod,
    Cyn yr elont ma's o'r byd;
Dyma Gyfaill pan daw angeu,
    A rydd nerth i lawenhau;
Cwyd y corff, a cheidw'r enaid,
    Mewn gogoniant caiff barhau.

15. 'Nawr ffarwel, berth'nasau tirion,
    A chyfeillion oll i gyd;
Mae pob undeb wedi darfod,
    A fu rhyngom yn y byd:
Fe ddaeth angeu i'n gorddiwes,
    Ceisiwch chwithau Iesu'n ben,
Tra b'och yna ar y ddaiar;
    Dyweded pawb o'r byw, Amen.

---

*E. Williams a'i Mab, Argraffwyr, Aberystwyth.*